Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd:

Gwasanaethau Llyfrgell a Hamdden Awdurdodau Lleol

17 Mawrth 2023

Cyflwyniad

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai y Senedd ar Wasanaethau Llyfrgell a Hamdden Awdurdodau Lleol. Mae'n hanfodol bod gwasanaethau llyfrgell a hamdden yn hygyrch i bobl hŷn gan eu bod yn darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a diddordebau cymdeithasol, yn ogystal â chymorth iechyd a lles pwysig.

Hoffai'r Comisiynydd gynnig sylwadau am y meysydd penodol sydd wedi eu nodi isod.

Cyflwr presennol darpariaeth gwasanaeth hamdden a llyfrgelloedd yr awdurdodau lleol

Mae darpariaeth bresennol gwasanaethau llyfrgell a hamdden awdurdodau lleol ledled Cymru yn amrywio, yn dibynnu ar amrywiaeth o faterion, yn anad dim o ran ardal leol.[1] Mae cael mynediad i wasanaethau o'r fath mewn rhannau gwledig o Gymru yn debygol o fod yn anoddach, yn enwedig os yn dibynnu ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Llyfrgelloedd

Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am wasanaethau llyfrgelloedd yng Nghymru ac mae yna ddyletswydd statudol o dan Ddeddf Llyfrgelloedd Cyhoeddus ac Amgueddfeydd 1964 i ddarparu gwasanaeth 'cynhwysfawr ac effeithlon' i'w thrigolion.[2]

Mae nifer y llyfrgelloedd wedi gostwng o'i uchafbwynt o 310 yn 2004/5 i 240 o lyfrgelloedd yn 2020/21.[3] Canfu ymchwil a wnaed yn Lloegr yn 2019-20, cyn y pandemig, fod cyfradd presenoldeb llyfrgell ar gyfer oedolion rhwng 65 a 74 yn 36%, gyda menywod yn gyffredinol â chyfradd uwch o bresenoldeb na dynion (37% o'i gymharu â 26%).[4] Mae'n debyg bod tueddiadau tebyg yn bodoli yng Nghymru. Mae llyfrgelloedd yn llawer mwy na gwasanaeth benthyca llyfrau traddodiadol, ac maen nhw'n chwarae rhan hanfodol yn y gymuned. Dylid cydnabod eu rolau fel canolfannau cymunedol a chanolfannau lle gall pobl o wahanol genedlaethau ddod at ei gilydd hefyd.

Gwasanaethau Hamdden

Mae manteision iechyd corfforol a meddyliol ymarfer corff wedi hen ennill eu plwyf, ac mae'r rhain yn parhau i fod yn wir yn ddiweddarach mewn bywyd. Fodd bynnag, mae cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn gostwng gydag oedran ar hyn o bryd. Mae data gan Chwaraeon Cymru yn dangos bod cyfran is o oedolion rhwng 55 a 64 oed, 65-74 oed, a 75+ wedi cymryd rhan mewn o leiaf un gamp neu weithgaredd corfforol yn ystod y pedair wythnos flaenorol o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol ac i grwpiau oedran iau.[5] Dim ond 49,000 o bobl dros 75 oed a gymerodd ran o leiaf unwaith yn ystod y pedair wythnos flaenorol o'i gymharu â 144,000 o bobl rhwng 65 a 74 oed.

Er bod ymchwil gan Chwaraeon Cymru yn dangos bod cyfran yr oedolion sydd â galw am fwy o chwaraeon a/neu weithgaredd corfforol yn gostwng gydag oedran, mae 36,000 o bobl 75 oed neu'n hŷn yn dal i fynegi galw am fwy o chwaraeon a/neu weithgaredd corfforol.[6] Mae canolfannau hamdden yn darparu cyfleusterau ac ystod o weithgareddau ar gyfer cymunedau, gan gynnwys pobl hŷn. Os na fydd camau'n cael eu rhoi ar waith i ddiogelu cyfleusterau hamdden hygyrch, nid yn unig y bydd Cymru'n parhau i weld galw heb ei ateb am chwaraeon a gweithgarwch corfforol

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

ymhlith pobl hŷn, ond mae'n debygol y bydd cynnydd mewn unigrwydd cymdeithasol a dirywiad yn iechyd a lles pobl hŷn.

Yr heriau ariannol a gweithredol sy'n wynebu awdurdodau lleol i gynnal y gwasanaethau cymunedol hanfodol hyn

Mae'r argyfwng costau byw hefyd yn effeithio ar wasanaethau llyfrgell a hamdden oherwydd costau ynni cynyddol. Adroddir bod costau rhedeg pyllau nofio yn unig wedi codi cymaint â thair gwaith.[7] Yn ôl arolwg o aelodaeth ukactive, mae tri chwarter (74%) o ardaloedd cynghorau wedi'u dosbarthu'n 'ansicr' ar draws y DU, sy'n golygu bod perygl o gau canolfannau hamdden a/neu lai o wasanaethau cyn 31 Mawrth 2024. Yn y tymor byr, mae 40% o ardaloedd cynghorau'r DU mewn perygl o golli eu canolfan(au) hamdden neu weld llai o wasanaethau yn eu canolfan(au) hamdden cyn 31 Mawrth 2023.[8] Er nad yw'r arolwg yn rhoi mewnwelediad ar lefel Cymru, mae hyn yn dal i awgrymu tuedd bryderus o ran cyfleusterau a bod gwasanaethau dan fygythiad. Mae hyn yn peri pryder gan y byddai'n golygu llai o fynediad at fannau cyfarwydd a hygyrch i bobl hŷn ymarfer corff.

Mae gwasanaethau hamdden hefyd yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a rhyngweithio cymdeithasol. Mae ymchwil gan Chwaraeon Cymru yn dangos mai'r ail weithgaredd mwyaf cyffredin oedd oedolion am wneud mwy ohono oedd dosbarthiadau ffitrwydd, lle roedd 115,000 o oedolion yn dweud eu bod eisiau cymryd rhan fwy. Er nad yw dadansoddiad oedran ar gael ar hyn o bryd, bydd pobl hŷn yn rhan o'r galw hwn ac mae gwasanaethau hamdden yn aml yn cynnig mynediad at ystod o wahanol ddosbarthiadau ffitrwydd.[9]

Mae gallu cadw'n actif yn hanfodol er mwyn galluogi pawb i heneiddio'n dda. Gall gwasanaethau hamdden hefyd chwarae rhan mewn atal cwympiadau ymhlith pobl hŷn gyda rhai yn cynnig dosbarthiadau gyda'r nod o ddatblygu'r cryfder a'r cydbwysedd sydd ei angen i leihau'r risg o syrthio.[10] Bydd tua 132,000 o bobl hŷn yng Nghymru yn syrthio mwy nag unwaith yn eu cartref, tra bydd 8,100 o bobl hŷn yn dioddef anaf difrifol, gan ofyn am ymweliad ysbyty o ganlyniad i syrthio a bod gan wasanaethau hamdden hygyrch rôl i'w chwarae wrth helpu i leihau'r nifer hwn.[11]

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

Rhaid i bobl hŷn beidio ag ysgwyddo'r baich o doriadau i wasanaethau llyfrgell a hamdden - byddai hynny'n annheg. Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn berthnasol i awdurdodau lleol ac mae'n rhaid iddynt roi sylw dyladwy i hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau.[12] Pan fydd gwariant cyhoeddus yn cael ei leihau, mae'n rhaid i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau ariannol anodd, ond rhaid ystyried yr effaith ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys oedran. Mae asesiadau o effaith ar gydraddoldeb yn ffordd o ddangos bod effeithiau ynghlwm wrth newid polisi wedi cael eu hystyried yn briodol.[13] Mae angen i awdurdodau lleol allu dangos eu bod wedi ystyried yr effaith ar bobl hŷn o unrhyw ostyngiadau i wasanaethau. Bydd cyhoeddi'r wybodaeth cydraddoldeb sy'n cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau, gan gynnwys unrhyw asesiadau effaith ar gydraddoldeb, cyn i newidiadau gael eu gweithredu yn gwella tryloywder.

Sut mae darpariaeth gwasanaethau eraill awdurdodau lleol yn rhyngweithio â gwasanaethau hamdden a llyfrgelloedd

Cynhwysiant digidol a darparu gwybodaeth i'r rhai nad ydynt ar-lein

Mae gweithgarwch cynhwysiant digidol a ddarperir neu a gynhelir gan awdurdodau lleol yn rhyngweithio â llyfrgelloedd a all weithredu fel lleoliadau ar gyfer trosglwyddo sgiliau. Wrth i fwy o wasanaethau fanteisio ar ddull digidol yn gyntaf, mae llyfrgelloedd yn chwarae rhan hanfodol wrth feithrin sgiliau digidol ymhlith pobl hŷn ac eisoes yn darparu mynediad at wasanaethau gwybodaeth a chymorth. Dangosodd ymchwil nad oes gan 31% o bobl dros 75 oed fynediad i'r rhyngrwyd gartref ac nid yw 33% o bobl dros 75 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd (gan gynnwys teledu a dyfeisiau clyfar), o'i gymharu â 13% o bobl 65-74 oed a 0% o bobl 25-44 oed.[14] Mae angen cynnal rôl llyfrgelloedd wrth gefnogi datblygiad sgiliau digidol. Bydd hyn yn galluogi pobl hŷn sy'n dymuno datblygu sgiliau ar-lein i gael hyfforddiant ffurfiol neu anffurfiol mewn amgylchedd croesawgar a chyfarwydd, gan helpu i wella cynhwysiant digidol. Fodd bynnag, mae llyfrgelloedd hefyd yn gweithredu fel ffynonellau gwybodaeth a chefnogaeth i'r bobl hŷn hynny nad ydynt yn gallu neu'n

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

dewis peidio â chael mynediad i'r we, gan leihau gwaharddiad digidol. Mae hyn yn hanfodol.

Mae rôl llyfrgelloedd i gefnogi darpariaeth gwybodaeth i bobl hŷn a gweithredu fel lleoedd lle gall pobl gael mynediad i'r we yn debygol o ddod yn gynyddol bwysig. Wrth i'r argyfwng costau byw barhau i gael effaith negyddol ar gyllidebau cartrefi, mae ymchwil yn awgrymu bod rhai pobl yn lleihau gwasanaethau rhyngrwyd a band eang. Yn ôl ymchwil gan y Good Things Foundations, does gan dros un o bob 20 o gartrefi ddim rhyngrwyd o gwbl.[15] Mae ymchwil gan Ofcom yn dangos bod 32% o gartrefi yn y DU yn cael problemau wrth dalu am eu ffôn, band eang, teledu, a biliau ffrydio.[16] Mae pobl hŷn ymhlith y rhai sy'n gwneud penderfyniadau gwario anodd ac yn debygol o fod ymhlith y rhai sy'n torri'n ôl ar fynediad i'r we. Gallai hyn arwain at gynnydd mewn lefelau o ynysu cymdeithasol ymhlith pobl hŷn yn ogystal â thanseilio sgiliau a hyder digidol presennol. Felly, mae angen diogelu gwasanaethau llyfrgell a hamdden i helpu pobl hŷn gael gafael ar wybodaeth, a lle bo'n briodol, meithrin hyder a datblygu sgiliau wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel.

Cymunedau Cyfeillgar i Oedran

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn disgrifio cymunedau sy'n Gyfeillgar i Oedran fel lleoedd lle mae pobl hŷn, cymunedau, polisïau, gwasanaethau, lleoliadau a strwythurau yn gweithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i gefnogi a galluogi ni i gyd i heneiddio'n dda. Mae gwasanaethau llyfrgell a hamdden yn ffitio ar draws sawl maes o'r wyth parth a gwmpesir o fewn cymunedau Cyfeillgar i Oedran Sefydliad Iechyd y Byd sef:

- Mannau ac adeiladau awyr agored
- Trafnidiaeth
- Tai
- Cyfranogiad cymdeithasol
- Parchu a chynhwysiant cymdeithasol
- Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

- Cyfathrebu a gwybodaeth
- Cymorth cymunedol a gwasanaethau iechyd.[17]

Mae llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden yn gweithredu fel mannau lle gall pobl o bob oed gymdeithasu a dod o hyd i wybodaeth a'i rhannu, gan gyfrannu at les a chyfranogiad mewn bywyd cymunedol.

Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod £1.1 miliwn ar gael i awdurdodau lleol er mwyn cefnogi eu gwaith i ddod yn gyfeillgar i'r oedran a sicrhau bod pobl hŷn yn rhan o'r gwaith o ddylunio a chynllunio gwasanaethau lleol.[18] Dylai hyn barhau i gynnwys gwasanaethau llyfrgell a hamdden. Mae'r gefnogaeth i wasanaethau llyfrgell a hamdden presennol, ynghyd â datblygu dulliau newydd ac arloesol o ddarparu gwasanaethau'n barhaus, yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Cymru'n gweld llai o unigrwydd cymdeithasol a chyfle gwell i gyfranogiad cymdeithasol a dinesig i bobl hŷn. Mae'r camau y mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi eu rhoi ar waith i ddod yn fwy cyfeillgar i oedran hyd yma yn rhywbeth i'w croesawu. Mae angen i awdurdodau lleol barhau i ddiogelu a datblygu rhagor o fannau cymunedol i gefnogi cymunedau sy'n addas i oedran ledled Cymru.

Trafnidiaeth

Mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan allweddol yn y ddarpariaeth trafnidiaeth a chynllunio. Mae'n bwysig bod pobl hŷn yn cael mynediad rhwydd at unrhyw wasanaeth sydd ei angen arnynt, ac mae hyn yn cynnwys llyfrgell a gwasanaethau hamdden ledled Cymru. Roedd gwaith ymchwil gan Age Cymru nôl yn 2013 yn dangos pwysigrwydd gwasanaethau bws: mae llawer o bobl hŷn yn dibynnu'n llwyr ar y bysiau i fyw eu bywydau bob dydd.[19] Mae canfyddiadau allweddol yr adroddiad hwnnw'n parhau i fod yn berthnasol wrth i heriau gan gynnwys prinder gwasanaethau, newidiadau i'r ddarpariaeth a hygyrchedd barhau i gael eu hamlygu i'r Comisiynydd. Mae effaith barhaus Covid-19 ar ddarpariaeth drafnidiaeth, gan gynnwys gwasanaethau bysiau, yn arwain at ganlyniadau difrifol i allu pobl hŷn i ymgymryd â gweithgareddau o ddydd i ddydd, boed hynny ar gyfer hamdden neu'n angenrheidiol.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

Mae'r data ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i ben yn 2018 yn nodi ymhlith yr aelwydydd gyda dim ond un oedolyn sydd wedi ymddeol ac sy'n dibynnu'n helaeth ar bensiwn gwladol, dim ond 43% ohonynt sy'n berchen ar o leiaf un car neu fan.[20] Mae hyn yn golygu nad yw dros hanner yr aelwydydd hyn yn berchen ar eu cerbyd eu hunain. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn hanfodol i'w gallu i deithio tu hwnt i'w pellter cerdded unigol.

Gyda chymhorthdal Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr bysiau yn dod i ben yn haf 2023,[21] bydd yn hanfodol sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith niweidiol ar bobl hŷn. Mae hyn yn arbennig o wir yn achos pobl hŷn sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle, oherwydd y gostyngiad yn nifer y teithwyr ers y pandemig,[22] efallai nad yw'n broffidiol bellach i gwmnïau redeg gwasanaethau gwledig mor aml neu o gwbl. Bydd hyn yn datgysylltu pobl hŷn oddi wrth wasanaethau cyhoeddus hanfodol, fel llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden.

Mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio gyda gweithredwyr, Llywodraeth Cymru, y Gymdeithas Cludiant Cymunedol a rhanddeiliaid eraill i ddarparu rhwydwaith bysiau.[23] Mae system drafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'i chynllunio'n dda yn galluogi pobl o bob oed i gael mynediad at lyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden. Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn parhau i ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl hŷn i sicrhau bod eu hanghenion a'u dymuniadau'n cael eu hadlewyrchu wrth ddylunio, cynllunio a newid llwybrau bysiau yn eu hardaloedd.

Fel yn achos newidiadau arfaethedig i leoliad ac oriau agor y llyfrgell a chanolfannau hamdden, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, gan gynnwys asesu'r effaith ar bobl hŷn, wrth wneud newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau bysiau a allai effeithio ar allu pobl hŷn i gyrraedd gwasanaethau hamdden a llyfrgell. Mae angen i lwybrau cludiant cyhoeddus ac amserlenni alluogi mynediad i'r gwasanaethau hyn.

Mae'r gwaith o greu hybiau sy'n dod â sawl gwasanaeth at ei gilydd, a lle maen nhw'n atal gwasanaeth lleol rhag cael ei gau'n barhaol, yn cael ei groesawu gan ei fod yn caniatáu i wasanaethau llyfrgell a hamdden barhau i fodoli mewn cymuned. Os caiff hybiau mewn safleoedd newydd eu creu, mae cydweithrediad rhwng

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth leol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl hŷn yn gallu parhau i gael mynediad at wasanaethau hamdden a llyfrgell drwy drafnidiaeth gyhoeddus.

Dulliau cyflawni amgen ac arfer da

Mae'n bwysig sicrhau bod gwasanaethau llyfrgell a hamdden lleol yn gynaliadwy mewn hinsawdd ariannol heriol. Mae hyn yn golygu archwilio ffyrdd amgen o ddarparu gwasanaethau i gymunedau sy'n parhau i ddiwallu anghenion cymunedau, gan gynnwys pobl hŷn.

Dylid edrych ar fodelau amgen o ddarpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys cydweithio a chydleoli gyda gwasanaethau eraill. Mae un enghraifft o arfer da o hyn i'w gweld yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ar Ogwr, un lleoliad sy'n darparu gwasanaethau iechyd, ffitrwydd, a gwasanaethau llyfrgelloedd mewn lleoliad cyfleus, gan alluogi trigolion i fanteisio ar ystod eang o gyfleoedd i gefnogi eu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol gyda'i gilydd. Menter gymdeithasol sy'n gweithredu'r cyfleuster hwn, mewn partneriaeth â'r cyngor lleol a'r bwrdd iechyd, gan dderbyn atgyfeiriadau meddygon teulu a gall ddarparu gwasanaethau ar y safle mewn ymateb.[24]

Casgliad ac argymhellion

Mae llyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden yn cynnig lleoliadau hanfodol ar gyfer cymryd rhan mewn gweithgareddau a diddordebau cymdeithasol, ochr yn ochr â gwasanaethau a gweithgareddau ar gyfer cynnal a gwella iechyd a lles pobl hŷn yng Nghymru a lleihau unigrwydd. Mae cynigion i dorri ar wasanaethau, boed hynny drwy dorri oriau neu gau adeiladau, yn peri risg o bobl hŷn ledled Cymru yn colli mynediad i'r ystod eang o weithgareddau a gynigir gan lyfrgelloedd a gwasanaethau hamdden: canolfannau cynghori sy'n darparu cymorth a gwybodaeth, croesawu hybiau sy'n darparu cynhesrwydd corfforol ac emosiynol, a mannau hygyrch lle gall cyfleoedd ar gyfer dysgu, rhyngweithio cymdeithasol a gweithgarwch corfforol

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

ddigwydd. Mae pob un ohonynt yn hanfodol ar gyfer iechyd a lles. Bydd colled o'r fath yn gwneud llefydd yn llai addas i bob oedran, yn groes i uchelgais Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, ac ar draul pobl hŷn a chymunedau.

Mae'r Comisiynydd yn argymell:

- Bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi'r wybodaeth cydraddoldeb sy'n helpu i lywio penderfyniadau ynghylch newidiadau neu doriadau i wasanaethau hamdden a llyfrgelloedd, gan gynnwys unrhyw asesiadau effaith ar gydraddoldeb, i ddangos eu bod wedi ystyried yr effaith ar bobl hŷn yn unol â'u rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Dylai hyn gynnwys unrhyw fesurau lliniaru a nodwyd.
- Mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod gwasanaethau llyfrgell a hamdden yn cael dyraniad o gyllid penodol er mwyn cynnal y ddarpariaeth bresennol cyn belled ag y bo modd, yn enwedig gan fod mannau cymunedol yn hanfodol i gymunedau sy'n gyfeillgar i bob oed.
- Mae awdurdodau lleol yn archwilio modelau amgen o ddarparu gwasanaethau yn ogystal â chydweithio â gwasanaethau eraill, er mwyn helpu i gadw gwasanaethau hamdden a llyfrgell leol ar agor.
- Mae cydweithrediad yn digwydd rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a darparwyr trafnidiaeth leol i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael mynediad at wasanaethau hamdden a llyfrgell trwy drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys unrhyw safleoedd newydd, yn enwedig yn sgil y cymorth brys sydd wedi'i gynllunio i dynnu allan o'r diwydiant bysiau.

Nodiadau

[1] CILIP, heb ddyddiad, Llyfrgelloedd yng Nghymru, Llyfrgelloedd yng Nghymru - CILIP: y gymdeithas llyfrgelloedd a gwybodaeth

[2] Llywodraeth Cymru, 2017, pa mor dda yw eich gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus. Ar gael yn: how-good-is-your-public-library-service-a-summary-guide-to-the-performance-measurement-and-assessment-framework-for-public-libraries-in-wales.pdf (gov.wales), t. 3.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

[3] Llywodraeth Cymru, Ebrill 2022, Datganiad rhyddid Gwybodaeth 16166: Llyfrgelloedd cyhoeddus. Ar gael yn: Datganiad Rhyddid Gwybodaeth 16166: Llyfrgelloedd cyhoeddus | LLYW.CYMRU

[4] Yr Asiantaeth Ddarllen, heb ei ddyddio, ffeithiau'r Llyfrgell. Ar gael yn: Ffeithiau'r Llyfrgell | Asiantaeth Darllen

[5] Adroddiad Arolwg Chwaraeon Cymru, 2022, Chwaraeon a Ffordd o Fyw Actif. Ar gael yn: Adroddiad Arolwg Chwaraeon a Ffordd o Fyw Actif, t. 17.

[6] Ibid, t. 27.

[7] Nofio Cymru, Ionawr 2023, ymgyrch Achub Ein Pyllau. Ar gael yn: https://www.swimwales.org/news/save-our-pools-campaign-launched/

[8] Arolwg a gynhaliwyd gan ukactive: anfonwyd yr arolwg at holl weithredwyr hamdden sector cyhoeddus y DU o fewn aelodaeth UKACTIVE, gyda nifer yr ymatebwyr yn cynrychioli mwy na thraean o holl ganolfannau hamdden a phyllau nofio'r DU. Gweler: UKactive, heb ei ddyddio, Deugain y cant o ardaloedd cynghorau sydd mewn perygl o gau canolfannau hamdden a phwll nofio. Ar gael yn: 40% o ardaloedd cynghorau sydd mewn perygl o gau canolfannau hamdden a phyllau nofio a chyfyngiadau cyn mis Ebrill heb gymorth ar unwaith | UKACTIVE

[9] Adroddiad Arolwg Chwaraeon Cymru, 2022, Chwaraeon a Ffordd o Fyw Actif. Ar gael yn: Adroddiad yr Arolwg Chwaraeon a Ffordd o Fyw Egnïol Adroddiad yr Arolwg Chwaraeon a Ffordd o Fyw Actif, t.36.

[10] Gweler, er enghraifft, Better, sy'n gweithredu canolfannau hamdden ar ran Cyngor Caerdydd: Better UK, heb ei ddyddio, Atgyfeiriad Gweithgaredd Corfforol Healthwise. Ar gael yn: Atgyfeirio Gweithgaredd Corfforol Healthwise | Better UK

[11] Gofal a Thrwsio Cymru, Ionawr 2023, Cyflwr Tai Pobl Hŷn yng Nghymru. Ar gael yn: Care & Repair english WEB.pdf - Google Drive, t.14.

[12] Daeth Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus i rym ym mis Ebrill 2011. Gweler: Llywodraeth y DU, Gorffennaf 2022, dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Ar gael yn: **Gwall! Dydy cyfeirnod yr hyperddolen ddim yn ddilys.**.

[13] Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi cynhyrchu deunyddiau i gefnogi asesiadau o effaith ar gydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau. Gweler: EHRC, Heb ei ddyddio, Asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb. Ar gael yn: Asesiadau effaith cydraddoldeb | Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (equalityhumanrights.com)

[14] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Awst 2022, Deall poblogaeth Cymru sy'n heneiddio. Ar gael yn Deall poblogaeth Cymru sy'n heneiddio 23 Awst (1).pdf

[15] Tŷ'r Arglwyddi, 22 Chwefror 2023, Sut mae datrys gwaharddiad digidol mewn argyfwng costau byw? Ar gael yn: Pwyllgorau - Senedd y DU

[16] Ibid.,

[17] WHO, heb ei ddyddio, Age Friendly World. Ar gael yn: Fframwaith Dinasoedd sy'n gyfeillgar i Oedran WHO - Byd Cyfeillgar i Oedran

[18] Llywodraeth Cymru, Ebrill 2022, buddsoddiad o £1.1m i hyrwyddo buddion pobl hŷn wrth i Gymru ddod yn Gyfeillgar i Oedran. Ar gael yn: Buddsoddiad o £1.1 miliwn i hyrwyddo buddion pobl hŷn wrth i Gymru ddod yn Gyfeillgar i Oedran | LLYW. CYMRU

[19] Age Cymru, Rhagfyr 2013, Bysus yn Amhrisiadwy i Bobl Hŷn. Ar gael ar: buses---a-lifeline-for-older-people.pdf (ageuk.org.uk)

[20] Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2019, Canran y cartrefi gyda cheir. Ar gael yn: Canran y cartrefi gyda cheir yn ôl grŵp incwm, deiliadaeth a chyfansoddiad cartref: Tabl A47 - Swyddfa Ystadegau Gwladol (ons.gov.uk)

[21] Llywodraeth Cymru, Chwefror 2023. Datganiad ar y Cyd am y Cynllun Argyfwng Bysus. Ar gael yn: https://www.gov.wales/joint-statement-bus-emergency-scheme

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales

[22] Senedd Cymru, 15 Chwefror 2023, sesiwn lawn, cwestiynau pynciol, ar gael yn: https://record.senedd.wales/Plenary/13221#A77882
[23] WLGA, heb ei ddyddio, Trafnidiaeth. Ar gael yn: https://www.wlga.wales/transport
[24] Halo Leisure, heb ddyddiad. Ar gael yn: https://haloleisure.org.uk/centres/bridgend/bridgend-life-centre

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais annibynnol ac yn bencampwr dros bobl hŷn ledled Cymru.

Mae'r Comisiynydd yn rhoi camau ar waith i warchod hawliau pobl hŷn, rhoi diwedd ar wahaniaethu ar sail oedran, atal cam-drin pobl hŷn a galluogi pawb i heneiddio'n dda.

Mae'r Comisiynydd yn gweithio tuag at Gymru lle mae pobl hŷn yn cael eu gwerthfawrogi, mae hawliau'n cael eu cadarnhau, a neb yn cael eu gadael ar ôl.

Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL

Ffôn: 03442 640 670

E-bost: ask@olderpeople.cymru

Gwefan: www.olderpeople.wales

Twitter: @talkolderpeople

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Dewi John, Cynorthwyydd Polisi a Materion Cyhoeddus
Ffôn: 029 2044 5030 / Cyfeiriad e-bost: dewi.john@olderpeople.wales